Amodau a Thelerau'r Cynllun Talebau Cewynnau Go Iawn

1. Derbynnir ceisiadau gan breswylwyr Dinas a Sir Abertawe yn unig. Efallai gofynnir am dystiolaeth o hyn os na chaiff ei ddangos yn y dogfennau ategol a ddarperir

2. Derbynnir un cais y plentyn yn unig gan riant neu warcheidwad cyfreithiol.

3. Mae'n rhaid i riant neu warcheidwad cyfreithiol sydd wedi'i enwi ar y dystysgrif geni neu'r ffurflen MAT B1 brynu'r cewynnau ailddefnyddiadwy, oni chytunir fel arall.

4. Derbynnir ceisiadau am blant hyd at 18 mis oed yn unig.

5. Mae'n rhaid i brawf prynu ddangos yn glir y prynwyd cewynnau ailddefnyddiadwy. Gall hyn hefyd gynnwys ategolion cewynnau ailddefnyddiadwy ond nid fel yr unig bryniad.

6. Mae'n rhaid i brawf prynu fod yn 6 mis oed neu'n llai, a rhaid iddo fod gan ffynhonnell achrededig e.e. masnachwr ar-lein neu'r stryd fawr.

7. Mae cewynnau ail law yn gymwys ar gyfer y cynllun os gellir dangos prawf o'u prynu trwy ddogfennaeth ddilys, e.e. taleb PayPal neu eBay. Ni chaiff talebau/anfonebau a ysgrifennwyd â llaw eu derbyn fel dogfennaeth ddilys.

8. Rhaid i dystysgrifau geni/MAT B1 fod yn ddarllenadwy heb unrhyw newidiadau.

9. Mae Dinas a Sir Abertawe yn cadw'r hawl i atal talu os ystyrir bod unrhyw un o'r amodau uchod heb eu bodloni.

10. Ni fydd Dinas a Sir Abertawe yn derbyn cyfrifoldeb dros golli unrhyw gais am unrhyw reswm.

Cyngor Abertawe
Swansea Council